O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 191 (Cy. 23)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Gwyddelwern, Sir Ddinbych) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | *11 Chwefror 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Gwyddelwern, Sir Ddinbych) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 11 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn tua'r de o bwynt 100 o fetrau i'r gogledd o'r cyfyngiad cyflymder parhaol o 30 mya i'r gogledd o Wyddelwern hyd at bwynt 240 o fetrau i'r